YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1893. [RHIF 67

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

Y DDADL AR Y DRINDOD.

(Allan o'r "Herald Cymraeg.")

SYR,—Wrth symmud yn mlaen at y rhan nesaf o'r pwnc hwn, nis gallaf lai na dwyn ar gof linellau y Proffeswr Blackie:—

"Thou art more than all
The shrines that hold Thee, and our wisest creeds,
Are but the lispings of a prattling child
To spell the Infinite;"

ac wrth ystyried hyny, oni weddai i ni fod yn wylaidd iawn? Ymddengys mor rhyfedd i mi wrth gyffwrdd â phwnc Hanfod y Bod Mawr ei fod yn cael ei wneuthur yn bwnc o *arithmetic*, a'r *arithmetic* wed'yn yn cael ei guddio yn nghysgod geiriau. Dirgelwch! Dirgelwch!! Dywedir fod tri pherson yn y Duwdod, ac wrth esponio'r gair person, dywedir mai dirgelwch yw. Ond, a ydyw dirgelwch yn beth y rhaid ei gredu, neu y gellir ei gredu? Ydyw, ynte nad yw? Ydyw, os golygir yn unig fod pethau yn bodoli y tu hwnt i'n gwybodaeth. Nad yw, os golygir i ni gredu dim am y peth nad ydym yn gwybod dim. Lle mae dirgelwch yn dechreu, tybiwn fod ein credu yn terfynu. Nid yw'r gosodiad fod y borfa yn tyfu ddim yn ddirgelwch. Mae y ffaith yn gyfryw ag y gallwn ei chredu. Credwn y ffaith, a chredwn y gosodiad; ond am y sut a'r modd y mae'r borfa yn tyfu ni wyddom ddim, ac felly ni chredwn ddim am dano. Nid ydym yn deall y sut, ac nid ydym yn credu dim am y sut; ond holl bwrpas y gwahanol gyfundrefnau Trindodol—ac y maent yn llu mawr iawn—yw dangos sut y mae Duw Tri-yn-un yn hanfodi yn Dad, Mab, ac Ysbryd. Ni

foddlonir ar a geir yn yr Ysgrythyrau ar y pwnc. Ceisir dangos ac esponio'r sut i ni, ac yna, yn y diwedd, yr ydys dan orfod gadael y pwnc mewn cymmaint dyryswch a dirgelwch ag erioed. Nid dirgelwch y pwnc sydd yn ei wneuthur yn anhawdd ei gredu, ond ei afresymoldeb ymddangosiadol. Nid yw Mr. Humphreys, yn fy ngolwg I, wedi egluro dim arno wrth son am ddirgelwch bywyd, goleuni, a'r *telephone.*

Meddyliais unwaith fod Mr. Humphreys yn myned i gymmeryd cam yn yr iawn gyfeiriad pan yn dywedyd ei fod "yn amheu y priodoldeb o alw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan yn bersonau, gan fod hyny yn arwain i anhawsdra a dyryswch, ac mai gwell fyddai eu galw ar enwau ereill." Yr oeddwn yn hollol gyduno—dyryswch, anhawsdra! Ond cyn terfynu ei lithiau, y mae yn annghofio y sylw pwrpasol hwn, ac yn cwympo yn ol drachefn ar y gair person; a chawn fod y Tad yn Berson Dwyfol, y Mab yn Berson Dwyfol, a'r Ysbryd Glan yn Berson Dwyfol, ac etto nad ydynt dri, ond un Person Dwyfol. Yr wyf yn gorfod addef nad wyf yn deall; ond dyna, dywedir wrthyf nad peth i'w ddeall yw. Nid oes yr un help i mi, ychwaith, yn yr eglureb a osodir gerbron, ac a elwir yn

DRINDOD Y RHOSYN.

Gall fod yn amlwg iawn i un yn credu Trindod eisoes, ond yr wyf yn amheu a wna argyhoeddi neb byth. Dyma fel y dywed Mr. Humphreys: "Y mae gan y rhosyn arogl, lliw, a defnydd llysieuol. Gwyddom o ba le y tyn efe yr arogl, y lliw, a'r defnydd. Un peth yw arogl, peth arall yw lliw, a pheth arall yw defnydd y rhosyn; ond un rhosyn er hyny. A ydyw 'R. J. J.' am anghredu trindod rhosyn?" Yr wyf yn gofyn yn sobr ac yn ddifrifol a oes rhyw synwyr mewn peth fel hyn? Y tri hyn, un rhosyn ydynt. Tri pheth? Yr arogl yn rhosyn, y lliw yn rhosyn, y defnydd yn rhosyn! Tri un yw tri, tri rhosyn, un rhosyn! Nage, nage. Nid yr arogl yw y rhosyn, nid y lliw yw y rhosyn, nid y defnydd yw y rhosyn. Nid yw y rhai hyn ond priodoleddau y rhosyn. A phaham y cawn ein cyfyngu i dri? Ymddengys i mi yn wrthuni hollol yn y gosodiad ohono.

Mae'r gwahanol weddau yn y rhai y mae'r athrawiaeth drindodol wedi ei gosod allan bron yn aneirif, a bron oll yn gochelyd yr anhawsdra gwirioneddol. Ceir rhai yn hunan-wrthwynebol *(self-contradictory)*, rhai yn annealladwy, rhai yn dysgu tri Duw, a rhai nad oes achos i Undodwr efallai eu gwrthod. Geilw un awdwr y tri yn dri sylwedd; un arall a'u geilw yn dri Bod mor wahanol, annibynol, a gogyfartal ag yw Pedr, Paul, ac Ioan. Geilw Anselm hwy yn "Dri nas gwn i beth *(Tres nescio quid)*; a Wallis yn Dri rhywbeth; Tillotson yn Dri amrywiaeth; Sherlock yn dri meddwl anfeidrol a gwahanol; Waterland yn dri pherson gwirioneddol; Arnold, Tri pherthynas; Bushnell, personoliaeth neu bersonoliad triphlyg o Dduw.

Ebe y Dr. Thomas Manton, "Dyma y dirgelwch mawr, Tri yn Un, ac Un yn Dri. Dynion ac angylion a wnaethpwyd er mwyn yr olygfa hon;

nis gallwn ei amgyffred, ond rhaid i ni ei edmygu. *O luminosissimae tenebrae!* Goleuni tywyllwch! Yr oeddynt yn fwy yn Dri am eu bod yn Un; ac yn fwy yn Un am eu bod yn Dri. Pe na byddai dim arall i beri i ni ddymuno ymddatod ond hyn, byddai hyn yn ddigon!"

Ac ebe y Dr. South, "Rhaid caniatau nad oes y fath osodiad a hwn, Fod yr un a'r unrhyw Dduw yn dri pherson gwahanol, i'w gael mewn cynifer o eiriau, nac yn yr Hen Destament na'r Newydd; ac ni phretendir fod dim o gyffelyb synwyr ac ystyr a'r gair Trindod i'w gael yn yr Ysgrythyrau mewn perthynas i Dduw."

Fe ddywed y duwiol Broffeswr Stuart nad oes yr un eglurhad ag y mae efe wedi ei weled, nac yn ddealladwy, nac yn foddhaol.

Rhediad cyffredin yr Ysgrythyrau yw mai un yw Duw, mai un Duw sydd, a dim ond un. Y cyntaf o'r holl orchymynion yw, Clyw, O Israel, &c. I ni nid oes ond un Duw, y Tad. Pan weddioch, dywedwch Ein Tad. Y gwir addolwyr a addolant y Tad. A oes un adnod o ddechreu Genesis hyd ddiwedd Datguddiad yn gosod allan yn eglur ac yn amlwg athrawiaeth y Duw Tri yn Un? Onid casgliad ar y goreu yw? Ceir adnodau dyrys, adnodau amheus o ran ystyr ac o ran dilysrwydd, ond dim un yn dysgu tri pherson yn y Duwdod. Nid yw Moses yn son am ddim o'r fath beth, na'r un o'r prophwydi. Ni sonia'r Iesu, nac un o'r apostolion un gair am Drindod o bersonau yn yr Hanfod dwyfol. Fe ddywed y Dr. Pye Smith na chafwyd datguddiad cyflawn o athrawiaeth y Drindod hyd ar ol marwolaeth ac adgyfodiad Crist. Fe ddywed y Pabyddion, ac mae llawer o Brotestaniaid yn cyduno, nas gellid profi y Drindod allan o'r Ysgrythyrau. P'am, O, p'am, ynte, os yw yr athrawiaeth mor bwysig ag y dywedir ei bod, p'am, O, p'am, na buasai wedi ei gosod gerbron mor eglur fel na buasai posibl camsynied? Os yw iachawdwriaeth dyn yn dibynu ar wybodaeth o'r athrawiaeth a chrediniaeth ynddi, mae yn rhesymol credu y cawsai ei gosod allan mor amlwg, o leiaf, a'r athrawiaeth o'r Undod dwyfol. Onid yw yn ffaith addefedig fod yr ymadroddion Duw Dad, Duw Fab, a Duw Yspryd Glan yn ddieithr i'r Ysgrythyrau; ac felly, hefyd, Trindod mewn Undod?

Y gofyniad cyntaf a'r gofyniad pwysig, fel yr ymddengys i mi, yw, A yw yr athrawiaeth yn wir? Mae dynion yn rhy barod, fel y dywedodd yr hen bregethwr o sir Benfro, i fyned i'r Beibl i chwilio am adnodau i droi eu melinau eu hunain, i geisio adnodau i ategu'r athrawiaethau, yn lle myned i weled beth sydd gan y Beibl i'w ddysgu i ni. Yr wyf yn ofni fod yr athrawiaeth yn faen tramgwydd ac yn graig rhwystr i filoedd, fel nas gallant dderbyn crefydd syml yr Iesu. A ddaeth erioed i feddwl Petr, ac Iago, ac Ioan, pan yn cyd-deithio â'r Iesu dros fryniau a dyffrynoedd gwlad Canaan mai y Bod Goruchaf oedd?

Mae Mr. Humphreys wedi clywed fod Plato yn dysgu Trindod, ac mae wedi clywed y gwir. Fe geir Trindod yn mhlith y Paganiaid, ac fe ddysgodd Cristionogion y bedwaredd ganrif Drindod yn Alexandria yn yr Aipht. Ie, fe'i ceir hi yn yr Aipht. Ceir hi yn Assyria, ceir hi yn yr India. Dyma'r Trimurti, neu Drindod yr Hindwaid:—

abtynau = fossils

Brahma, y gallu creadigol,
Fisnw, y gallu ceidwadol,
Sifa, y gallu trawsffurfiol.

Ond nid Trindod Athanasius mo'r un o'r rhai hyn. Eto dyma'r llinellau ar hyd y rhai y deuwn yn oreu o hyd i hanes a dadblygiad yr athrawiaeth hon.

Ebe Gibbon, yr hanesydd enwog, am y Drindod, "Darfu i'r athroniaeth Blatonaidd ragflaenu un o ddarganfyddiadau mwyaf rhyfeddol y dadguddiad Cristionogol." Ac meddai Macaulay, hanesydd enwog arall, "Yn y bummed ganrif yr oedd Cristionogaeth wedi gorchfygu Paganiaeth, a Phaganiaeth wedi llygru Cristionogaeth. Yr oedd yr Eglwys yn awr yn orchfygol ac yn llygredig. Yr oedd defodau y Pantheon wedi pasio i'w haddoliad, a chywreinbethau dyrys yr Academia wedi pasio i'w chredo!"

Cymeraf rai o'r profion Ysgrythyrol i fyny yn fy nesaf.

Mai 27ain, 1893. R. J. J.

Chwilio'r ydym am wirionedd,
Prif oleuni Teyrnas Nef;
Par i'n hymbwyll, Dduw'r trugaredd,
Ganfod ei wynebpryd ef.

—*Iolo Morganwg.*

Syr,—Mae cael gafael yn y gwirionedd yn fater pwysig i bob un; a pheth mor bwysig a hyny yw bod yn ffyddlon i'r gwirionedd wedi cael gafael arno. Peth personol yw crefydd, dybiaf fi, ac o'r braidd y gallaf gredu y gwna un Protestant amheu hyny. Peth arall, a pheth arall hollol yw credoau. Gwirioneddau tybiedig wedi eu hystrydebu gan un dosparth ffaeledig o bobl ar gyfer dosparth ffaeledig arall yw credoau, ac yn werthfawr yn unig fel mae cloddynau *(fossils)* y graig yn werthfawr i'r daearegydd. Mae lle i ofni fod credoau wedi gwneuthur mwy o ddrwg yn y byd nag a wnaethant erioed o ddaioni. Ffordd *cheap* o grefydda yw proffesu credu'r credoau, a llawer mwy hawdd na byw crefydd yn deilwng. Mae'r gredo yn fath o *royal road* i ddyogelwch—math o *insurance policy* rhag tân—eithr dim ond gwelltyn i ddyn yn boddi.

Gesyd Undodiaid lawn cymaint pwys a neb pwy bynnag ar gywirdeb syniadau ac ar y ddyledswydd o geisio am danynt. Pob un drosto ei hun, fodd bynag, a rydd gyfrif i Dduw, ac i'w Arglwydd ei hun y mae pob un i sefyll neu syrthio. Nid oes gan neb hawl i wthio ei syniadau arnaf fi, na minnau arno yntau. Ac eto credaf y gwnaiff y Tad Goreu faddeu i mi lawer o anmherffeithderau mewn opiniwn, os yn onest ac yn ddifrifol; ac yr edrycha heibio i lawer coll pen os bydd y galon yn iawn. Nid yw tadau a mamau daearol yn caru eu plentyn tair blwydd yn ddim llai, am nad yw yn gallu dyweyd ei stori mor groyw neu mor gryno a'r plentyn tair ar ddeg; ac nid wyf yn credu llai na chaiff addoliad gonest Paganiaid ynysoedd Môr y De o leiaf mor barod der-

byniad yn y nefoedd ag addoliad Cristion goleuedig y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn enwedig os bydd hwnw yn anffyddlon i'w oleuni uwchaf. Gwn fod llawer o bregethu wedi bod am golledigaeth y Paganiaid, fod Duw wedi eu dyfarnu i dân anniffoddadwy—ac am beth? Nid am yr un bai o'r eiddynt eu hunain; nid dyna garitor Duw fel yr adwaenaf fi Ef. Nis gall Duw ddim sydd yn annghysson â'i garitor fel Tad. O leiaf, nid felly yr wyf fi wedi dysgu Crist! Arglwydd Bacon, os wyf yn cofio, sydd wedi dyweyd fod yn well peidio credu yn Nuw o gwbl na chredu pethau am dano ydynt annheilwng o'i garitor. Ond O, yr ydym oll am allu dyweyd, y mae Duw! Yr ydym am gredu ei fod, a chredu yn deilwng am dano; am gredu ei fod, a'i fod yn Dad pawb; am ei garu â'r holl galon a'r holl enaid, &c., a'n cymydog fel ni ein hunain; am gredu ynddo, a'n bod yn atebol iddo am ein holl ymwneyd yn y byd, ac y cawn dderbyn yn ol llaw yn ol a wnaethom, &c.

Yn fy ngolwg i, ein crefydd yw y peth pwysig, yn fwy felly na'n duwinyddiaeth; ein cred yn Nuw, ein ffydd a'n hyder a'n hymddiried yn Nuw, ac nid ein hopiniynau am ddull ei hanfodiad. Sonir llawer am ffydd yn Nghrist, lle y dylid son yn hytrach am ffydd Crist. Ffydd Crist ei hunan sydd eisieu arnom, ffydd Crist yn Nuw. Gyda'r fath ffydd gallem godi uwchlaw awyrgylch sectol opiniynau i sylweddoliad o deimlad cyffelyb i eiddo'r Pabydd Faber, pan y dywedodd—

Mae'n nhrugaredd Duw a'i gariad
  Ryw eangder fel y môr;
A rhyw fwynder yn ei iawnder
  Sy'n ddiderfyn byth ei stor.

Y mae cariad Duw'n eangach
  Nag yw mesur meddwl dyn,
Ac mae calon y Tragwyddol
  Yn rhyfeddol fwyn a chun.

Pa'm cyfyngwn ni ei gariad
  Trwy derfynau ffol a gau?
Pa'm mawrhawn ei lymder gyda
  Zel na fydd E'n caniatau?

O'r braidd y mae eisieu adgofio darllenwyr yr *Herald* mai nid un llyfr yw r Beibl, eithr casgliad yw o lenyddiaeth yr Iuddewon, ac yn cynnwys llawer o lyfrau wedi eu cyfansoddi mewn gwahanol oesau a than amgylchiadau gwahanol; a phan y dywedir yn Llyfr y Datguddiad (xxii., 18, 19), "Os rhydd neb ddim at y pethau hyn, Duw a rydd ato ef y plaau sydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn," &c., golygir Llyfr y Datguddiad, ac nid y Beibl fel y mae yn awr gyda ni. Nid oedd y Testament Newydd wedi ei ddodi wrth ei gilydd ar adeg ysgrifeniad y llyfr hwn. Ond er gwaethaf y bygythiad, nid yw Llyfr y Datguddiad wedi dianc yr hyn a warafunir. Yn i. 10, 11, fe ddylid darllen, "Clywais o'r tu ol i mi lef fawr fel llais udgorn, yn dywedyd, 'Yr hyn yr ydwyt yn ei weled ysgrifena mewn llyfr.'" Gweler y

Cyfieithiad Diwygiedig Seisnig, neu, oni fedrir Saesneg, gweler "Y Testament Newydd Diwygiedig," gan John Ogwen Jones. I ba beth y gwnaed yr ychwanegiad, ai i geisio profi mai yr un yw Iesu a'r Hollalluog, yn adnod 8? Nid oes sail i alw yr Iesu yn Alpha ac Omega.

Fe ddylid cofio mai nid yn y Gymraeg yr ysgrifenwyd yr Ysgrythyrau, nac yn y Lladin chwaith. Cyfieithiad yw y Beibl Cymraeg, ac anmherffaith mewn llawer man—wedi ei lygru, weithiau yn fwriadol, ac weithiau, o bosibl, yn anfwriadol. Edrycher ar 2 Timotheus iii. 16. Sylwer yn fanwl. Dyma'r cyfieithiad newydd: "Pob ysgrythyr, ysprydoledig gan Dduw, sydd fuddiol hefyd, i ddysgu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi (neu ddysgyblu) mewn cyfiawnder; fel y byddo dyn Duw yn berffaith," &c. Y fath ffrwd o oleuni newydd ar bwnc ysprydoliaeth geir felly. Amlwg i mi nad oedd Paul, os Paul ysgrifenodd yr epistol hwn, yn dal y syniad poblogaidd ar y pwnc.

Tri phrif destun roddir yn Nghyffes Westminster i brofi Trindod, sef 1 Ioan v. 7; Mat. xxviii. 19, a 2 Cor. xiii. 14. A oes rhyw ystyr cyfriniol yn y rhif tri yn y cyssylltiad yma? Ond gadawer i ni sylwi: (1) "Oblegyd y mae tri yn tystiolaethu yn y nef; y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glân; a'r tri hyn un ydynt." A hwn yn ddiau ydyw y prawf cryfaf geir yn y Beibl Cymraeg; ond nid oes yma ddim son am dri pherson ac un Duw. Ni ddywedir Tri-undod na Duw Tri Un. "A'r tri hyn un ydynt;" un beth? Nid undeb personol nac undeb hanfodol olygir, neu buasai y gair a gyfieithir *un* yn y rhyw gwrywaidd (*masculine*). Megys yn Ioan x. 32, mae y gair un yn ddiryw (*neuter*), ac felly yn dynodi rhywbeth gwahanol iawn. Ond y gwaethaf o'r peth yw, ac nid yw yn un anrhydedd i'r cyfryw hyny ydynt wedi bod trwy'r blynyddoedd yn dysgu'r athrawiaeth i'r anwybodus, mae yr adnod yn ffugiol. Ni welodd Ioan erioed mohoni. Ffugiwyd hi a gosodwyd hi i fewn gydag amcan twyllodrus; a defnyddir hi heddyw i amcanion twyllodrus gan rai ydynt yn gwybod gwell (gweler Oxford Bible Helps). Taflwyd hi allan o'r Cyfieithiad Diwygiedig yn gwbl ddiseremoni, ac heb wneuthur sylw o honi (gweler llyfr Ogwen Jones).

Dyma'r ail: "Ewch gan hyny a dysgwch yr holl genedloedd, gan eu bedyddio hwy i enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan." Sylwer, "i enw," ac nid "yn enw." Yr un gair sydd yn 1 Cor. x 2, "a'u bedyddio oll i Moses." Nid Duw Dad, Duw Fab, a Duw Ysbryd Glân geir yma, ond i enw y Tad, Crewr Mawr nefoedd a daear, ffynnonell a dechreuol achos pobpeth, rhoddwr pob rhodd ddaionus, &c.; i enw y Mab, yr anfonedig oddiwrth y Tad, yr hwn, ohono ei hun, ni allai ddim, a'r hwn oedd yr hyn oedd yn unig o ewyllys y Tad, cyfryngwr o roddion y Tad; i enw yr Ysbryd Glan, gallu ysprydol y presennoldeb dwyfol yn eneidiau dynion ffyddlon. Ysbryd dyn yw y dyn ei hunan, yn myned allan yn ei ddylanwad ar ereill; a'r Ysbryd Glan, Ysbryd Duw yw, Duw ei hunan, &c. Nid yw ysbryd dyn yn golygu person arall ar wahan i'r dyn ei hunan, ac nid yw Ysbryd Duw yn golygu person arall ar wahan oddiwrth Dduw. Os yw bedyddio i

enw'r Mab yn golygu fod y Mab yn Dduw, yn ol yr un ymresymiad, a ydyw bedyddio i Moses yn golygu fod Moses yn Dduw?

Nid oes angen ychwanegu nemawr ar y trydydd testyn: "Gras ein Harglwydd Iesu Grist," hyny yw, meddai Rosenmuller, yr holl fendithion a ddeilliant i ni oddiwrth Grist a'i grefydd. "A chariad Duw," ebe Erasmus, y mae'r Apostol fel arfer yn galw'r Tad yn Dduw, a'r Mab yn Arglwydd, oddiwrth y Tad y ffynnonellodd, &c. "A chymdeithas yr Ysbryd Glan," fel y deloch yn gyfranogion o'r dwyfol gynnorthwy, ebe Schleusner; ac ebe Rosenmuller, mae Paul yn dymuno ar fod y Corinthiaid yn dyfod yn gyfranogion o'r holl fanteision sydd yn deilliaw i Gristionogion oddiwrth y wybodaeth a'r ymarferiad o'r grefydd Gristionogol. Mae'n rhaid wrth spectol o *special make* i weled Trindod yn yr ystyr gyffredin yn yr adnod yma.

Mehefin 9th, 1893. R. J. J.

ER COF AM MRS. ANN JONES,

Gweddw y Parchedig John Jones, Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, a mam y Parch. R. J. Jones. M.A.

Mae'r dydd, mae'r flwyddyn, mae'r cyfan yn marw yn brydferth iawn;
Mae diwedd bywyd y Cristion a'i lond o brydferthwch llawn;
Fe ddylai, yn wir, y ddolef ar ddechreu bywyd dyn,
I newid yn orfoledd-gan ar derfyn bywyd yr un;
Mae gwan ymafliad y baban ar fynwes dyner ei fam
Yn hardd, canys annghynnorthwy yw'n glynu wrth serch dinam;
Nid yw ymafliad serchiadau hen ddyddiau yn mhethau'r byd
Yn hardd, nac yn beth i'w garu, mae'n drist olygfa i gyd.
Bwriadwyd y bywyd dynol i ddyben amgenach gan Dduw,
Nid dadfail yw'r hyn a'i herys,—na, eithr cyfnewidiad yw;
Yn mhlith gogoniant porfforaidd i'r gorwel ymsudda'r haul;
Ai nid oes i'r bywyd dynol yr un datguddiad i'w gael?

Mae'r dydd, mae'r flwyddyn, mae'r cyfan yn marw yn brydferth iawn;
Mae diwedd bywyd y Cristion a'i lond o brydferthwch llawn.
Hir gofiaf y Sabbath-foreu y'm cym'rwyd i'w gwyddfod hi,
Rhyw deimlad rhyfedd ymferwodd ar draethell fy mynwes i;
Tarawyd fi ä mudanrwydd, ni ddywedais nemawr i air—
Credais y swniai'n anweddus yn ngwydd hardd-henaint y chwaer.

'Doedd yno ddim gwridog lygad, nac ychwaith dwym wridog rudd,
Ond gwelais ddisgleirdeb yspryd a mewnol wresawgrwydd cudd;
Ffenestri gweigion y golwg yn galw ag hyawdl lais,
Ar imi edrych drwyddynt fod enaid yn edrych maes;
A rhychiau dyfnion y wyneb oe'nt fel rhed-weliau byw,
Yn cael eu llanw a'u llifo gan nefol oleuni Duw.
Oes, mae'n bododi brydferthwch sydd yn disgleirio trwy'r wedd—
Nad yw yn disgleirio ynddi—prydferthwch glân y bedd.
Mae'r dydd, mae'r flwyddyn, mae'r cyfan yn marw yn brydferth iawn,
Mae diwedd bywyd y Cristion a'i lond o brydferthwch llawn,

Dowlais. D. Ifor Davies.

Grieve not too deeply o'er the timely parting,
Though missed and loved, she could not else but be ;
She has but crossed the silent, tranquil waters,—
She is at home, and waits to welcome thee.

Muse on her life and gentle loving nature,
The many trials she so meekly bore ;
And think, O ! think, she now has joined her loved ones,—
Her loved, not dead but only gone before

May be her gentle spirit now is hovering,
Around thee, whispering words of love and cheer ;
List to the voice, though silent, loved and cherished,—
She was the first, to wipe each scalding tear.

Her seat is vacant, and her form is absent,
But all around, her love speaks silently ;
Her life was Christ-like, and its recollections
Are universal love and charity.

Her feet were weary, and her eyes were longing
For the dear home her faith aye, kept in sight ;
She now has reached it, let her joy console thee,
She has but stepped through darkness into light.

She left her token rare to all who knew her,
The memory of a peaceful, helpful life ;
Her faith and love, her blessing and a pattern
Of perfect womanhood, and Christian strife.

MRS. D. I. D.

TAFARNDAI COFFI.

CWYNA llawer fod ein tafarndai coffi, fel rheol, yn rhai bawlyd a digysur iawn, ac fod yn rhaid i ddyn mewn llawer lle fyned i westty neu dafarn hyd y nod er cael pryd o fwyd blasus. Os ydyw hyn yn wir, y mae yn warth i berchenogion a llywodraethwyr ein tafarndai coffi, a dylent ymysgwyd o'r llwch Rhaid i mi addef fy mod wedi cael llawer o honynt yn hynod ddiofal (mae eithriadau bendigedig), fel pe na f'ai gwaeth ganddynt pa un a ddeuech yno ai peidio, neu fel pe teimlent ei bod yn ddyledswydd arnoch i ddyfod atynt hwy yn hytrach nag i'r dafarn, ac felly, nad oes angen petruso llawer am eich gwneyd yn gysurus. Clywais gyfaill i mi yn dweyd ei fod ef a chyfaill neu ddau iddo unwaith yn myned i lawr i Aberafon er cael awelon y môr, a'i fod wedi bod mewn dau neu dri tafarn coffi yn ceisio cael ciniaw weddol, ond ei fod wedi methu yn deg : nid oedd eu coginiaeth hwy ond syml iawn, tra nad oedd y modd y gosodent bethau allan yn tueddu i greu archwaeth ar ddyn—dim llian ar y bwrdd, ymylon y cwpanau yn ddigon o lon'd pen, a'r lle heb ei gadw yn rhyw neilldnol o lân, fel y gorfu arno fyned i dafarn i gael ciniaw flasus. Yr oedd efe yn barod i dalu pris teg am bobpeth, ond nid oedd adnoddau y tafarndai coffi yn cyrhaedd mor bell, tra y cafodd yn union yr hyn a geisiai mewn tafarn—bwyd o'r fath oreu, y llestri a'r cyllyll a'r ffyrc yn ateb. Rywfodd, ymddengys fod llawer mwy o lanweithdra, fel rheol, yn nghylch tafarn-

dai nag sydd yn nghylch tafarndai coffi. Nis gallaf feddwl fod angen mwy o demtasiwn i fyned i'r dafarn nag i'r tŷ coffi; efallai y gellir ei esponio drwy ddweyd "fod plant y byd hwn yn gallach yn eu cenedlaeth nâ phlant y goleuni"—preswylwyr y tafarndai yn llawer mwy ymdrechgar nâ phreswylwyr y tafarndai coffi.

Boreu Sadwrn, yr 8fed o Ebrill, aethum i Landyssul gydâ'r trên saith o'r gloch, a chan na chefais frecwest yn Nghaerfyrddin, teimlwn y buasai cwpanaid o dê yn hyfryd cyn cyrhaedd cartref. I'r dyben hwnw tynais tnag at y tafarndai coffi yn Llandyssul; ond wele! nid oedd un o honynt yn agored: yr oedd y perchenogion yn mreichiau cwsg. Ond wele ddrws tafarn yn yr ymyl led y pen, ac yno yr aethum, a chefais gwpanaid o dê a bara ymenyn o'r fath oreu, tra yr oedd fy nghyfeillion y tafarnwyr coffi yn gorwedd ar eu gwelyau, a minau yn gorfod ceisio fy moreufwyd gan fy ngelynion. Teimlais yr un peth yn y tafarn coffi yn ymyl yr orsaf yn Nghaerfyrddin. Gofynais cyn myned i'r gwely, a allwn gael brecwest yn y boreu—y byddwn yn myned gyda'r trên 5.30. "O na," meddai y wasanaethyddes, "'fyddwn ni ddim wedi codi yr amser hwnw." Felly, gorfu i mi wynebu ar gartref yn wâg fy nghylla. Rhaid cyfaddef mai rhyw ychydig iawn o ymdrech sydd mewn tafarndai coffi i gwrdd ag angen pobl: y mae eu perchenogion a'u llywodraethwyr bron cael eu bwyta gan ddiogi a diofalwch; efallai y codent yn foreuach pe byddai ganddynt ystablau.

Duw roddo yni a diwydrwydd, ymdrech a glanweithdra, yn mherchenogion ein tafarnwyr coffi, fel y byddont drwy hyny yn llawer mwy o gymhorth i achos sobrwydd nag ydynt yn bresenol. Dafarnwyr coffi! ymysgydwch o'r llwch!

D. Ff. Dafis.

JOHN JAMES, GELLIONEN.—XIV.

Y mae bwlch o amryw fisoedd rhwng y papyr hwn a'r un o'r blaen, a dymunaf esgusodi fy hun ar gyfrif amgylchiadau na fyddai o un budd i'r darllenydd i mi eu crybwyll yma.

Yn y papyr am Chwefror diweddaf, dywedais fod brwydr fawr wedi ei hymladd yn Gellionen dydd Sul, Awst y 18fed, 1816, ac y byddwn yn rhoi ei hanes mewn papyr dyfodol. Yr wyf yn myned i gyflawnu fy addewid yn awr.

O fy mlaen y mae copi o lythyr John James, dyddiedig Awst 19fed, sef dranoeth i ddydd y frwydr, yr hwn a ysgrifenodd at Dr. T. Rees, i'w hyspysu sut yr oedd pethau wedi bod. A ganlyn sydd fath o gyfieithad, neu yn hytrach aralleiriad o hono—*translation with a latitude*, fel y geilw Dryden y cyfryw:—

Gellionen Awst 19. 1816.

Anwyl Syr.

Yr oeddech yn camsynied pan y lled awgrymech yn eich llythyr at Mrs. Evans Mynyddbach fod o bossibl rai o'r gynnulleidfa yn bleidiol i

Isaac, blaenor y terfysgwyr. Nid oedd neb yn bleidiol iddo, h.y. o'r aelodau, oddieithr ei frawd William Llwynmydw. I'r gwrthwyneb yr oeddent oll yn bendant yn ei erbyn.

Rhoddaf i chwi yn awr hanes o'r modd y bu mor fyr ag y medraf heb wneuthur cam â'r gwirionedd. Ysgrifenais at Mr. Evans Abertawe dydd Sadwrn i geisio ganddo i fyned ar gerbyd *(by coach)* dranoeth i Benybont a phregethu yno ac yn y Bettws yn fy lle, oherwydd fod galwad arnaf fi i fod yn Gellionen. Dechreuwyd y cyfarfod yn y lle olaf gan un Evan Jones Myfyriwr,* yr hwn hefyd a bregethodd, a phregethais innau ar ei ol. Yna gorphenwyd y gwasanaeth. Ar ol y gwasanaeth darllenais annerchiad i'r bobl a dywedais "Yr wyf wedi clywed i Mr Evans &c"† Yna disgynais o'r pwlpid, a daeth Mr. Isaac Jones ataf pan yn sefyll wrth odre'r grisiau ac a ddywedodd wrthyf "Myfi fel aelod yng nghyd ag eraill a alwodd Mr. Evans yma i bregethu; mynaf ef yma ac efe a gaiff bregethu." Ysgrifenais y geiriau hyn o'i eiddo â phwyntil, a darllenais hwynt allan fel y clywai yr holl gynnulleidfa, a gofynais i Isaac pwy oedd yr "*eraill*" yma? Gwrthododd ddweyd. Yna gofynais i Dr Jenkins a ddarfu iddo ef wahodd Mr Evans i Gellionen? Atebodd yn nacaol. Gofynais i Mr. Henry Bowen a wnaeth ef roddi gwahoddiad iddo? Dywedodd na ddo. Gofynais yr un modd i amryw bersonau eraill, a'r un atebiad a gefais; ond William Llwynmydw a chwanegodd at ei na ddo "Ni wn I pa ddrwg wnaiff ef." Yna gofynais i'r gynnulleidfa yn gyffredinol, ac ni atebodd neb ei fod wedi rhoddi gwahoddiad i Mr. Evans. Ar ol hyn gofynais i Dr. Hopkins os oedd Mr Evans ei hunan neu ryw un arall drosto wedi gofyn am ganiatad i ddyfod i Gellionen? Atebodd fod Isaac Jones Llachart fawr wedi gwneuthur hyny, ond iddo ddweyd ar unwaith nad oedd yn rhoi caniatad iddo. Rhoddais yr un gofyniad i Mr. Henry Bowen, ac ateb hwnw oedd fod Isaac wedi gofyn iddo a gai Mr. Evans bregethu yn y capel? ac iddo yntau ateb na chai, ac na wnai byth roi cenad i Galfin i bregethu yn Gellionen; a chefais ar ddeall nad oedd un aelod arall wedi rhoi cenad oddieithr fod geiriau William, brawd Isaac, i'w cymmeryd yn yr ystyr hyny. Yna dywedais allan yn gyhoeddus nad oedd un o aelodau y gynnulleidfa wedi awdurdodi Isaac i geisio gan Mr. Evans i ddyfod i Gellionen i bregethu, a bod pawb â pha rai yr wyf wedi ymgynghori wedi amlygu eu hanfoddlonrwydd o'r peth. Ar ol hyn dywedais fod y gwasanaeth drosodd; ac yn enw'r gynnulleidfa dymunais ar bawb i fyned allan yn dawel fel y gellid cloi y drysau. Dywedodd Isaac "Af allan pan y gwelwyf yn dda." Cymmerais ei eiriau i lawr, a darllenais hwynt allan mewn llais uchel, a cheisiais gan Mr. John Jenkins un o uchel gwnstebli yr hwndrwd i fyned at Isaac a dywedyd wrtho am fyned allan yn dawel a digynhwrf. Gwnaeth Mr Jenkins yn ol fy nghais, ond dywedodd Isaac "Bwriwch fi allan os oes genych awdurdod." Yna clowyd un o'r drysau, ond ni chlowyd y llall oblegid yr oedd Isaac, David Bowen, John Cilmaenllwyd, a John y Bwtchwr yn gwrthod myned allan; Wed'yn aeth y drysor, ac eraill gydag ef, i gloi drysau'r llofft. Clowyd un o honynt, a safodd mab Isaac a dau o'r gweision a'u cefnau ar y drws arall i'w gadw yn agored. Ar ol i amryw o'r gynnulleidfa, fwy nag unwaith, ddymuno arnynt i fyned allan a hwythau yn gwrthod ufuddhau, darfu i mi dros y gynnulleidfa geisio gan Mr Jenkins, y pen-cwnstab, i'w gwthio allan yr hyn hefyd a wnaeth, ond nid heb gryn

* Yr wyf yn barnu mai brawd oedd hwn i Samuel Jones—Sam Crydd, Cribin, gynt.—T.T.

† Y mae yr Annerchiad, os cadwodd John James gopi o honi o gwbl wedi myned i golli. Methais ei chael yn mhlith ei bapyrau er chwilio yn fanol am dani. Diau ei bod yn bwrpasol i'r achlysur, ac yn deilwng o'r awdwr ym mhob ystyr.—T. T.

anhawsder er fod eraill yn ei gynnorthwyo. Wedi cael eu trechu gadawodd Isaac ac eraill gydag ef y ty ar unwaith gan fygwth cyfraith ar y pen-cwnstab am ymaflyd yn ei fab herwydd ei goler. Clowyd y drysau oll ar unwaith. A ddarfu i ni wneuthur dim yn groes i'r gyfraith? A all Isaac gospi'r pen-cwnstab yn nghyd â'r personau eraill a'i cynnorthwyodd ef? Arosodd y rhan amlaf o honom ar y Cwmmins hyd nes daeth Mr. Evans, a phan ddaeth rhoddais iddo lythyr Mr. Webster a dywedais wrtho y byddai ef yn cael ei gyfrif yn atebol am bob drygioni a wneid oblegid mai efe oedd wedi dwyn y bobl yno. Dywedais wrtho ym mhellach os oedd am fenthyg y capel y byddai iddo i'w gael, ond os oedd yn ei hawlio na chai mo hono heb dori i mewn iddo. Dywedodd Mr Evans fod ganddo ef ddigon o dai cyrddau at ei wasanaeth. "Y fi sy'n honi hawl i'r ty" meddai Isaac. Ni chewch mo hono ar y tir yna meddwn innau. "Wel, mae digon o le ar y Cwmmins" ebe fe, ac ar hyny gadewais I hwynt. Clywais i Mr. Evans bregethu allan yn yr awyr agored o fewn i gan llath o'r ty cwrdd.

Dywedodd David Bowen mai nid hwnyna fyddai y cynnyg olaf i gael meddiant o'r capel. Ysgrifenwch ataf cyn dydd Sul i roi gwybod imi sut bydd raid gwneyd os cerir y bygythiad allan.

John James

Dr. Thos. Rees
89. Paternoster Row, London.

Felly hanes y frwydr yn Gellionen, fel y mae wedi cael ei chofnodi gan John James. Yr oedd y Calfiniaid yn benderfynol, os mewn un modd yn ddichonadwy, i drawsfeddiannu y tŷ cwrdd at eu gwasanaeth y Sul uchod, ac, wrth bob tebygolrwydd, i gadw meddiant o hono yn y blaen er gwaethaf y mwyafrif Undodiaid a gyrchent i'r lle, ond ni fuont lwyddiannus, er taered y buont. Trodd y fuddugoliaeth o du'r Undodiaid, a'u heiddo hwy yw y capel hyd y dydd hwn, a'u heiddo hwy a fydd c'yd ag y byddont yn ewyllysio. Gobeithio, a chredaf hefyd fod y do bresenol o addolwyr yn y Gellionen yn gwerthfawrogi yr etifeddiaeth a gawsant trwy lafur a hunan-aberth yr hen dadau, ac y *byddant* hefyd, yn yspryd y rhei'ny, yn ymgadw rhag cael eu dal yn gaethion yn nghadwynau hen gredoau ystrydebedig, a chyda meddyliau agored yn derbyn i fewn bob goleuni diweddarach o ba gyfeiriad bynag y daw. Cofier mai braint fawr yw cael sefyll ar uchelfanau rhyddid pan yr ydym yn gweled ereill yn gwingo yn y cadwynau, yn rhy wangalon ac ofnus i'w dryllio, a neidio allan dros y terfynau i feusydd iachus rhyddymofyniad.

Fel y canlyn, ond yn Saesneg, yr ysgrifenodd Dr. T. Rees at John James, Awst 21, 1816, i gydnabod derbyniad ei lythyr, yn cynnwys hanes y cynhwrf yn Gellionen y Sul blaenorol:—

Anwyl Syr,—

Y mae yn ofidus genym feddwl am wrthnysigrwydd Isaac yn ei waith yn para i aflonyddu y gynnulleidfa, ond yr wyf yn gobeithio y ceir gwared o hono bellach, oblegyd nis gall ei bresennoldeb fel aelod fod o un gwasanaeth mwyach i'r achos yn Gellionen, oddieithr iddo gyfnewid yn fawr yn ei dymher a'i ymddygiad. Yr wyf yn mawr gymmeradwyo pob peth a wnaethoch y Sul diweddaf o blaid hawliau y gweinidog a'r gynnulleidfa, er fod yn ddrwg genyf yr angenrheidrwydd o wneuthur fel y gwnaethoch. Nid oedd fy llythyr I i Mr. Evans (xiii.) o un pwys neilldiol; ond gyda golwg ar lythyr Mr. Webster iddo, mwy na thebyg y bydd hwnw

i'w ddychrynu i raddau a'i attal efallai i wneuthur yr un cynnyg etto. Os na wna hyny, rhaid rhoi iddo *ddose* fo gryfach, er ei ddwyn i'w synwyrau.

Gwelais Mr. Webster heddyw, a'i gynghor oedd i chwi gymmeryd yr un cwrs drachefn yn y dyfodol, os y byddai i Isaac a'i barti gynnyg terfysgu y gynnulleidfa trwy hawlio'r capel, fel y gwnaethant y Sul diweddaf. Nid oes achos i Mr. Jenkins nac un o'i gynnorthwywyr ofni unrhyw ganlyniad anhyfryd am roi eu gwasanaeth mewn achos o'r fath. Ymdrechwch chwithau hefyd fod yn bresennol fel o'r blaen, os y gwneir ail gynnyg i'ch difeddiannu o'ch hawliau priodol fel gweinidog a chynnulleidfa; ond yr wyf braidd yn sicr yn fy meddwl na wneir hyny byth. Ar yr un pryd, yr wyf yn credu mai doeth fyddai i chwi geisio gan Mr. Jenkins i roi ei bresenoldeb yn y capel am rai Suliau eto, oblegyd nis gellir bod yn rhy wyliadwrus.

Yr eiddoch, &c.,

THOS. REES.

Er cymmeryd mwy na chyfran resymol o ofod yr YMOFYNYDD, a dyspyddu amynedd rhai o'i ddarllenwyr, yr wyf yn barnu mai doeth yw rhoi yn y rhifyn presenol weddill hanes yr helbul annymunol yn y cyfnod hwn o weinidogaeth John James yn Gellionen. Byddai gohirio y rhelyw hyd ryw rifyn dyfodol yn ei wneuthur yn llai dyddorol i ddarllenwyr cyffredin.

Wedi i Mr. Evans a'i blaid fethu yn eu hamcan y Sul hwn, a chael eu dychrynu i raddau gan lythyr Mr. Webster, agorasant eu llygaid, a deallasant eu bod wedi cynnyg gwneyd peth nad oedd gyfreithlon; ac wedi syrthio i'r amryfusedd hwn, barnodd Mr. Evans y byddai yn ddoeth, ar ei ran ei hun o leiaf, i wneuthur math o ymddiheurad, ac ysgrifenodd fel y canlyn:—

"At y gymdeithas arferol o ymgynnull yn y Gellionen. Fy nghyd ffordd-olion tua'r byd a bery byth.

Mi glywais eich bod wedi anfoddloni i mi oherwydd fy nyfodiad i'r mynydd y Sabboth diweddaf, &c. Ystyriaeth o eiriau Crist yn Matt. x. 23-25, a Paul yn Rhuf. xii. 14, a'm hannogodd i anfon y llinellau hyn atoch.

Mae'n wir i Isaac Jones anfon dau ddyn ataf i'r Fagwr bore Sabboth wythnos i'r diweddaf i ofyn i mi a ddeuwn i'r Gellionen am dri y Sabboth diweddaf. I hyn, mi atebais y deuwn, gan ystyried fy mod yn rhydd gartref, heb ystyried y byddai y peth mor groes gyda chwi ag y bu. Ond nad faint oedd fy annoethineb I yn y rhoddiad o'r addewid uchod, ac yn y cyflawniad o honi, barnu yr wyf fod llawer o annoethineb wedi bod ar rai o honoch chwithau, wedi darfod yr addoliad yn y bore, i ymbarotoi i ryfel pryd nad oedd neb yn meddwl rhyfela â chwi.

Barnasoch fy mod I yn dyfod i gymmeryd meddiant o'ch tŷ cyfarfod i mi fy hun, neu i ryw rai ereill, yr hyn beth ni feddyliais erioed; a hyny a wyddoch chwithau, nad oedd bossibl i neb ei wneyd; a phe buasai bossibl i mi wneyd hyny, nis gwnaethwn mo hono ddim, gan yr ewyllysiaf eich caru fel dynion, fel fi fy hun, er nad ydwyf yn llwyr unol a'ch athrawiaeth mwy na chwithau â'r eiddof finau. Fy meddwl wrth ddyfod i fyny oedd, wedi i mi glywed fod mesur o anfoddlonrwydd yn eich plith, a minnau o farn wahanol i chwi, nad awn I ddim i'r tŷ ar alwad Isaac Jones, heb ganiatad y gweinidog a'r lleill o'r *trustees*. Ond wrth glywed ar y ffordd rhwng Clydach a Gellionen fod pethau wedi bod mor annymunol yn eich plith yn y bore, penderfynais nad awn I yn agos at y ty nac at neb o hon-

och chwithau mewn un modd. Caseais y fath afreolaeth, a chwi a wyddoch mai chwi a ddaeth i gyfarfod â mi ar y ffordd, gan fy holi, &c.

Wedi i mi weled cynnifer yng nghyd, barnais nad llwyr anfuddiol oedd myned at Dduw mewn gweddi, a rhoi gair o gynghor i'r bobl.

Darfu i chwi lwyr gamsyniad dyben fy nyfodiad i'r lle. Nid oedd yn fy mryd i fychanu neb o'm cydgreaduriaid, ond yn hytrach annog cariad ac undeb yn eu plith, &c. Caiff y gwirionedd hwn ei brofi yn nydd y farn.

Beth bynnag o rwystr a fu fy ngwaith i chwi yn llwybr deddfau Duw, mae yn ddrwg genyf. Dymunaf faddeuant, ond os bydd hyn o fudd i chwi, a mi, neu ryw un arall, byddwn foddlon i Dduw gael y clod er chwerwed fu'r tro. Mae "pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sy'n caru Duw." Bellach, gorphwysaf, gan ddilyn heddwch a phawb, &c.

Eich cymmydog a'ch ewyllysiwr da,

DL. EVANS.

Treforris, Awst 23, 1816.

Mae'r llythyr neu yr ymddiheurad uchod wedi ei gyfansoddi mewn yspryd gwir ganmoladwy, oddieithr i ni feddwl y medrai yr awdwr ragrithio—fod yn flaidd yn ngwisg dafad, yr hyn ni fyddai yn farn cariad am dano. Meddylier y goreu am bawb.

Ystyriodd pobl Gellionen ei bod yn ddyledswydd arnynt i gydnabod llythyr Mr. Evans, a gwneuthur ychydig sylwadau arno. Ysgrifenwyd ato fel y canlyn (nid yw'r dyddiad yn cael ei roi):—

Syr.

Pe buasech yn eich llythyr ond yn unig ceisio maddeuant am gefnogi dynion i'n haflonyddu yn ein ty addoliad ar ol darfod ein gwasanaeth boreuol y 18fed o Awst diweddaf, buasem yn teimlo rhwymau Cristionogol arnom i'w ganiatau mor belled ag y buasai hyny yn unol â'n llonyddwch yn ol llaw. Ond y mae'n rhyfedd genym eich bod, wrth geisio maddeuant, yn dwyn achwyniadau disail yn ein herbyn, neu yn erbyn rhai o honom. Yr ydych yn dywedyd "Mi glywais eich bod wedi anfoddloni i mi oherwydd fy nyfodiad i'r mynydd y Sabbath diweddaf &c." Ni wyddom ni ddim beth sydd gynnwysedig yn y nôd bychan "&c" hwn; ond gwyddom na anfoddlonasom ni ddim i chwi am eich dyfodiad i'r mynydd, ond yr ydym yn tybied i chwi roddi achos cyfiawn i ni anfoddloni i chwi wrth gyhoeddi y byddech i bregethu yn ein ty addoliad heb ofyn ein cenad. Yna wedi dywedyd i chwi, ar gais Isaac Jones, addaw dyfod i'r Gellionen i bregethu yr ydych yn dwyn cyhuddiad lled ryfedd yn erbyn rhai o honom (nid ydych yn dywedyd pwy) yn y geiriau canlynol, "Ond nad faint oedd fy annoethineb I yn y rhoddiad o'r addewid uchod, ac yn y *cyflawniad* o honi, barnu yr ydwyf fod llawer o annoethineb wedi bod ar rai o honoch chwithau, wedi darfod yr addoliad yn y bore, i ymbarotoi i ryfel pryd nad oedd neb yn meddwl rhyfela â chwi." Yr ydym yn tybied na allech ysgrifenu fel hyn pe buasech yn gwybod y modd yr ymddygasom. Am hyny gwnawn ef yn adnabyddus i chwi: Wedi i Isaac John Llachartfawr ddywedyd mai efe a'ch galwodd chwi i'r Gellionen, ac y deuai ef â chwi yno, ac y caech bregethu yno, dymunasom arno ef a phawb eraill i fyned allan fel y gallem gloi ein ty, ac wedi i bawb fyned allan oddiar y llawr, ond Isaac John a thri dyn arall nad oeddent yn aelodau gyda ni, ac wedi i bawb fyned allan oddiar y llofft ond mab Isaac a'i ddau was, ac wedi i ni geisio ganddynt hwythau i fyned allan fwy nag unwaith, ac na dwywaith ond yn gwbl ofer. O'r diwedd wedi aros yn mron awr wrthynt ceisiasom gan Geidwad Heddwch (constable) oedd yno i'w bwrw

hwynt allan, yr hyn trwy gynnorthwy a wnaeth. Os annoethineb oedd hyn yr ydym yn addef ein bod yn euog o hono, ac nid ydym eto wedi deall pa fodd y gallasem ymddwyn yn ddoethach. Efallai i ni aros yn rhy hir cyn galw am gynnorthwy i'w bwrw hwynt allan. Dyma'r holl ymbarotoi i ryfel a wnaethom ni. Ac oni ddarfu i'ch cyfaill Isaac John, nid yn unig feddwl rhyfela, ond hefyd ddechreu rhyfela â ni trwy geisio cymmeryd ein ty i'w roddi i chwi? Yr ydych yn dywedyd drachefn, "Barnasoch fy mod I yn dyfod i gymmeryd meddiant o'ch ty cyfarfod i mi fy hun neu i ryw rai eraill, yr hyn beth ni feddyliais, a hyny a wyddoch chwithau nad oedd bossibl i neb ei wneyd. Gwyddom nad oedd hawl gyfreithlon a chyfiawn gan neb i wneyd hyny." Ond gwyddom i'ch cyfaill, Isaac John, yng nghyd â chwech ereill heb fod un o honynt yn aelod o'n cymdeithas ni, geisio cymmeryd meddiant o'n ty gan ddywedyd mai chwi oedd ef yn ddwyn iddo. Yna, yr ydych yn chwanegu, "A phe buasai bossibl i mi wneyd hyny nis gwnaethwn mo hono ddim." Ni allwn ddim gwybod am hyny, ond ni a wyddom i'ch cyfaill, Isaac John, geisio cymmeryd ein ty, ac iddo ddywedyd y deuai â chwi iddo, ac yr oeddech chwithau wedi cyhoeddi y deuech. Wedi sylwi fel hyn ar ein barn ni am ddyben eich dyfodiad, yr ydych eich hun yn dywedyd eich dyben yn dyfod yn y geiriau hyn:—"Fy meddwl wrth ddyfod i fyny oedd, wedi i mi glywed fod mesur o anfoddlonrwydd yn eich plith, a minnau o farn wahanol i chwi, nad awn I ddim i'r ty ar alwad Isaac Jones heb ganiatad y gweinidog a'r lleill o'r Trustees." Pa le yr oeddech yn meddwl y caech weled y gweinidog a'r lleill o'r Trustees y diwrnod hwnw i chwi gael gofyn eu caniatad? Yr oedd yn dra naturiol i chwi feddwl y gallasent beidio bod oll yn y cyfarfod yn y bore, ac yr oedd yn gwbl afresymol i chwi ddysgwyl iddynt aros hyd dri o'r gloch i'r dyben i chwi gael gofyn eu caniatad, oddieithr eich bod chwi yn gwybod ym mlaen llaw amcan eich cyfaill Isaac Jones, a'r chwech ereill. A phan cynnygiodd ein gweinidog ni fenthyg ein tŷ i chwi os oeddech yn ceisio ei fenthyg, chwi a ddewisasoch fyned gyda'ch cyfaill Isaac John i ochr y clawdd yn hytrach na chymmeryd benthyg y ty trwy gennad. Eich amcan oedd meddiannu'r ty mewn modd annghyfreithlon ac annghyfiawn. "Ond," meddwch chwi, "wrth glywed ar y ffordd rhwng Clydach a'r Gellionen fod pethau wedi bod mor annymunol yn eich plith yn y bore, penderfynais nad awn I yn agos at y ty nac at neb o honoch chwithau mewn un modd: caseais y fath afreolaeth." Pa afreolaeth, Syr, fuom ni yn euog o hono? Ai afreolaeth oedd cloi ein ty addoliad pan oedd ein gwasanaeth boreuol wedi darfod? Ai afreolaeth oedd ceisio gan Geidwad Heddwch i'n cynnorthwyo i fwrw allan ddynion a wrthodent fyned o'n ty ar ein cais fel y gallem ei gloi? Onid afreolaidd oedd ymddygiad y rhai a wrthodent fyned allan o'n ty ar ein cais? Onid eich cyfaill Isaac John yng nghyd â chwech eraill a fuont yn euog o'r ymddygiad afreolaidd hyny? Ac am fod eich cyfaill Isaac John wedi bod yn achos o'r holl bethau annymunol ac afreolaidd a gymmerasant le yn Gellionen wedi darfod yr addoliad yn y boreu, chwi a benderfynasoch nad aech yn agos at y ty nac at neb o honom ni!! Ond chwi a aethoch yn agos at, a chydag Isaac John. Gan hyny chwi a wyddech nad oedd ef yn un o honom ni. Ac os gwyddech nad oedd ef yn un o honom ni, pa fodd y gellwch gyfiawnhau eich gwaith yn dyfod i'r Gellionen ar ei gais ef heb ein cenad ni? Chwi a ddaethoch hefyd yn agos at ein ty er penderfynu ar y ffordd na ddeuech O! meddwch, "Ac chwi wyddoch mai chwi a ddaeth i gyfarfod â mi ar y ffordd gan fy holi," &c. Y mae yn wir i'n gweinidog ni yng nghyd â rhai ereill ddyfod ychydig oddiwrth ein ty cwrdd i gyfarfod â chwi ar y ffordd. Ond ar y ffordd i ba le yr oeddech pan ddaethant i'ch cyfarfod? Onid ar y ffordd i Gellionen i gyflawnu eich addewid i Isaac John, ac i ganlyn eich

cyhoeddiad i fod yn Gellionen am dri o'r gloch y diwrnod hwnw? Onid dyna'r amser y cyfarfuasant hwy â chwi?

Anhawdd hefyd yw deall beth yw eich amcan wrth ddywedyd, "Wedi i mi weled cynnifer yng nghyd, barnais nad llwyr anfuddiol oedd myned at Dduw mewn gweddi, a rhoi gair o gynghor i'r bobl." A ydych am i ni feddwl mai ar ddamwain y daethoch y ffordd hono, neu mai ar eich taith i ryw le arall yr oeddech, a bod y bobl wedi dyfod yn nghyd i ryw ddyben heblaw i gyfarfod à chwi yn ol eich cyhoeddiad pan yr oeddech wedi cyhoeddi y byddech yn Gellionen ar yr amser hwnw? Ac os oeddech wedi penderfynu ar y ffordd nad aech yn agos at ein ty, beth allasai eich dwyn o fewn i ddau cant o latheidau iddo? Ac onid ar gais Isaac John yr aethoch i ochr y clawdd i bregethu yn lle myned i'r ty cwrdd trwy genad ein gweinidog ni? Buasai yn dda genym i chwi allu gwneuthur ymddiffyniad gwell o'ch ymddygiad. Y mae yn ymddangos i ni, fel ag y mae, yn dra anghysson, ac yn lle ein argyhoeddi o'i gymhwysder yn ein tueddu yn hytrach i feddwl yn waeth am dano na phe buasech heb ysgrifenu dim yn ei gylch. Ond yr ydych yn dywedyd y caiff y gwirionedd, mai eich dyben oedd annog cariad, ei brofi yn y Farn. Yr hyn allwn ni ddywedyd am hyn yw fod yn ddrwg genym fod eich ymddygiad wedi bod y fath, fel y mae yn ymddangos i ni, fel nad yw yn rhoddi un prawf mai eich dyben oedd annog cariad. Ar eich geiriau yn unig y mae eich prawf yn gorphwys. Gobeithiwn y byddwch yn fwy gofalus yn ol llaw i wneyd eich *ymddygiad* yn brawf mwy amlwg o uniondeb a charueiddiwch eich dybenion.

M. N.
N. D.

Dros y Gymdeithas arferol o ymgynnull yn y Gellionen.

Bydd llawer o ddarllenwyr yr Ymofynydd wedi blino cyn gorphen darllen y Papyr hwn. Bydd o ddyddordeb yn unig i'r sawl sydd yn caru gwybod hanes Undodiaeth yn Neheubarth Cymru, pa fodd mae Undodiaid wedi gorfod ymdrechu o blaid eu ffydd, a gwrthsefyll yn y dydd drwg yn erbyn awdurdodau a llywiawdwyr tywyllwch y byd

T. T.

CRISTIONOGAETH A'R YMHERODRAETH RUFEINIG.*

"Nis gall hanes dechreuad Cristionogaeth lai nà bod o ddyddordeb i'r rhai a ewyllysiant gael eu cyfrif yn mhlith dysgyblion yr Iesu." Fe ly y dechreua y rhagymadrodd gan Proff Carpenter i gyfrol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gymdeithas yr Ysgol Sul yn Llundain ar *Gristionogaeth a'r Ymherodraeth Rufeinig*. Mor wir yw'r geiriau! Nid oes un cyfnod yn nghylch yr hwn y mae Cristionogion yn gwybod cyn lleied à'r tri chanrif cyntaf yn hanes Cristionogaeth; ac nid oes un ag y dylid gwybod mwy am dano nà'r cyfnod hwn, o herwydd yn ei ystod y daeth Cristionogaeth i ffurf fel system. Dyma'r pryd yr ymluniodd, ac yn y gwaith yr oedd gan yr Ymherodraeth Rufeinig law helaeth. Fel y dywed y golygydd etto yn ei ragymadrodd, "Mae'r

Christianity and the Roman Empire, by W. E. Addis, M.A. Essex Hall, London. Price 3s. 6d.

ymadrodd, 'Yr Ymherodraeth Rufeinig,' yn cynnwys llawer iawn o elfenau, gwleidyddol, cymdeithasol, meddyliol, moesol;" ac fel yr oedd Cristionogaeth yn graddol weithio ei ffordd drwy'r gwahanol wledydd a wnaent i fyny'r Ymherodraeth, yr oedd yr elfenau hyn yn dylanwadu yn fawr arni. Ac amcan y llyfr dan sylw yw desgrifio'r dylanwadau hyn a darlunio eu heffaith ar dyfiant yr Eglwys Gristionogol.

Yn y bennod gyntaf rhoddir darluniad byr o'r cynnorthwy a roddwyd i Gristionogaeth gan yr Ymherodraeth; yn yr ail dangosir sut y lledodd Cristionogaeth yn ngwledydd y Gorllewin, a noda, fel un rheswm paham y lledodd yn y Gorllewin yn fwy nag yn ngwledydd y Dwyrain, y ffaith fod yr Iuddewon, y rhai oeddynt wedi ymsefydlu yn y gwahanol wledydd Rhufeinig, wedi parotoi'r ffordd ar ei chyfer; yn y drydedd desgrifia sefyllfa'r grefydd newydd yn ngolwg yr awdurdodau gwladol, a sylwa hefyd ar y ffaith fod y Cristionogion yn yr amser hwnw yn cael eu galw gan eu gwrthwynebwyr yn Atheistiaid, fel yr oedd yn naturiol dysgwyl; yny bedwaredd desgrifia'r cyfnewidiadau a ddaethant dros Gristionogaeth yn ystod yr ail ganrif; ac yn y bummed sylwa mai yn ystod y trydydd canrif y daeth derbyniad credo yn rhwymyn undeb rhwng Cristionogion a'u gilydd: cyn hyny unid hwy â'u gilydd gan yr un gobeithion a dyheadau, gan eu hymddiriedaeth yn Nuw a Christ, gan sancteiddrwydd bywyd a chariad at eu gilydd, ond yn ystod y trydydd canrif daeth cyfnewidiad, pryd y gwnawd dal syniadau neillduol ar natur y Duwdod yn brif rwymyn Undeb cydrhwng Cristionogion; yn y seithfed nodir allan y prif ddygwyddiadau yn sefydliad yr Eglwys Gatholig; ac yn yr olaf noda allan y modd y buddugoliaethodd y gyfundrefn newydd a chymmysglyd hon. Wele un dyfyniad o'r bennod hon—"Ni wnaeth Cristionogaeth, os wrth Gristionogaeth y golygwn grefydd syml Iesu Grist, erioed fuddugoliaethu ar yr Ymherodraeth. . . Mae y byd yn wahanol iawn i'r hyn fyddai heb fywyd a marwolaeth Crist. Ond yr oedd y system a orchfygodd yr Ymherodraeth wedi benthyca hanner ei chynnwysiad oddiar yr Ymherodraeth" a orchfygwyd. Hefyd, mor wir yw'r geiriau canlynol o'r un bennod—"Yn amser y Diwygiad gwnawd cyfiawnder â duwinyddiaeth, ac efallai, â chrefydd Paul, A ellir dweyd fod cyfiawnder wedi ei wneyd â chrefydd Iesu Grist? Mae Cristionogaeth, meddai Lessing, wedi bodoli er's canrifoedd lawer, ond y mae crefydd Crist yn aros i gael ei threio etto."

Mae y llyfr yn un gwir ddyddorol, yn enwedig felly i'r sawl a deimlant ddyddordeb mewn pynciau o'r fath, ac yn fwy enwedig fyth, nis gall lai nâ bod o wir help i athrawon ein Hysgolion Sul. A. B.

Y mae y Beibl yn ddefnyddiol i bob math o bobl: y dyn bydol a ddylai ddarllen llyfr y Pregethwr; y dyn duwiol, y Psalmau; y cystuddiol, llyfr Job; pregethwr, llyfrau Timotheus a Thitus; gwrthgiliwr, llyfr yr Hebreaid; y penrhydd, epistolau Petr, Iago a Judas; a'r sawl sydd wedi ymrwymo mewn galwedigaethau mawrion, llyfr Nehemiah.

CYMMANFA GANU MORGANWG.

Ar y 5ed o Fehefin (Dydd Gwyl Fabon), cynnaliwyd y gymmanfa eleni yn Nghastellnedd, er mwyn rhoddi mantais i bobl barchus Gellionen a Nottais ymuno â ni yn y ganiadaeth, ac yr oedd yn dda iawn genym weled cynnifer o honynt, yn hen ac yn ieuanc, yn bresenol. Yr oedd pobl y Nottais wedi cychwyn yn foreu iawn, gan fod ganddynt o 15 i 20 milldir o ffordd ar hyd yr heol. Mae'n debyg mai mewn *brakes* y daethant oll, ac felly, yr oeddynt yn dangos sel a brwdfrydedd mawr tuag at y gwaith da. Appwyntiodd Pwyllgor y Gymmanfa Mr. D. E. Jones a'r Parch. J. H. Davies i fyned at gwmni Cledrffordd y Great Western, i gytuno â hwynt am drên rhad i ninau o Ferthyr ac Aberdar, ac wedi hir ddadleu ac ysgrifenu llawer, llwyddasant, yn y diwedd, i'w gael; ond nid mor rhad ag oedd llawer yn ei ddymuno. Cychwynodd y trên o Ferthyr am chwarter i wyth y boreu, a chyrhaeddasom Gastellnedd ychydig ar ol naw. Yr oedd yn gwlawio pan gychwynasom o Ferthyr; ond erbyn cyrhaedd Castellnedd, yr oedd yr hin yn bob peth allesid ddymuno. Buwyd yn ffodus iawn eleni, fel arfer, i gael lle cyfleus i gynnal ein gwledd gerddorol. Sicrhaodd J. H. Rowlands, Ysw., Castellnedd, gapel hardd y Gnoll trwy ganiatad a charedigrwydd enwad parchus yr Annybynwyr Seisnig, a chlywais fod yn dda gan eu gweinidog a'u blaenoriaid gael cyfle i roddi benthyg eu capel am unwaith i'r Undodiaid. Felly, gwelwn fod culni barn sectyddol yn cilio draw o'r hyn y mae wedi bod tuag atom ni'r Undodiaid. Erbyn 10 o'r gloch, yr amser appwyntiedig i ddechreu, yr oedd y cantorion braidd i gyd yn eu lleoedd ar y *gallery*, yn barod i'r *command*, ac yr oedd cynnulleidfa barchus o wrandawyr ar y llawr. Dechreuwyd y cyfarfod trwy ddarllen a gweddio gan y Parch. J. H. Davies, Cefncoed. Yna, cymmerwyd y gadair gan Lieut-Col. Phillips, Aberdar, yr hwn a wnaeth araeth fer a phwrpasol ar yr achlysur, gan gyfeirio at y gwelliant mawr a'r manteision sydd yn awr at ddysgu canu nad oeddynt i'w cael tuag ugain neu ddeg mlynedd ar hugain yn ol. Wedi hyny, galwodd ar yr arweinydd, Mr. D. E. Jones, at ei waith, yr hwn a adroddodd ychydig eiriau i'r perwyl. Yna, dechreuwyd ar y canu, ac awd trwy y tonau canlynol:—Edom, Pembroke, Lead, kindly Light, Arfon, a Lowell. Er mwyn ychydig hamdden, galwyd ar y Parch. W. James, B.A, Llandyssul, i ddweyd gair. Sylwodd Mr. James ar y gwir angen am ganu y Cyssegr, ac y dylai y colegau roddi mwy o sylw i ganu nag a wnant. Dywedai y buasai yn fwy o fendith i'r myfyrwyr ieuainc ddysgu canu ychydig na'u treisio i ddysgu Groeg a Lladin, y rhai nad ydynt o fawr gwerth iddynt ar ol croesi trothwy'r coleg. Teimlai Mr James ei golled yn fawr na fuasai yn gallu ymuno â phlant y gân yn fwy agos mewn sain a mawl, ac hyspysai ei fod yn barod bob amser i roddi cryn lawer o Roeg a Hebraeg am feddiannu ychydig seiniau melus o gerddoriaeth. Ar ol hyn, canwyd y tonau Ambrose, Glanteifi, Crugybar, Bryniau Canaan, Aberystwyth, a'r anthem, "Gwyn ei fyd y gwr," gan Rhedynog Price, Caerdydd. Terfynwyd cyfarfod y boreu trwy weddi gan y Parch. W.

James. Mae'n ddyledus arnom ddiolch i Mr. Rowlands, Castellnedd, am ei barodrwydd a'i weithgarwch i sicrhau lle mor gyfleus a phwrpasol i ni gael tê, ac i gynnal ein cymmanfa. Mae'n wybyddus i lawer o honom fod dylanwad Mr. Rowlands yn fawr yn Nghastellnedd, a'i barch yn gymmaint, fel y cafodd fenthyg Festri fawr perthynol i'r Bedyddwyr Seisnig i gynnal y tê, yr hwn le sydd ddigon eang i ddal o dri i bedwar cant o bobl, ac yn hynod o gyfleus. Rhoddwyd Capel y Gnoll a'r Festri a nodwyd yn rhydd ac yn rhad.

Ar ol cael ychydig ymborth i'r corff, tynwyd yn ol tua'r cyfarfod dau o'r gloch Cyfarfod i'r plant ydoedd hwn, a'r cyntaf sydd wedi bod gyda ni. Gobeithio mai nid yr olaf. Mr. David Evans, Hen Dŷ Cwrdd, Aberdar, oedd arweinydd y plant, ac er mai y tro cyntaf oedd hwn, medd efe, iddo arwain yn gyhoeddus, aeth trwy ei waith yn gampus. Cyn dechreu, gwnaeth ychydig sylwadau ar ganu'r plant, a dywedodd, cyn byth y bydd llewyrch ar ein cynnulleidfaoedd, y bydd yn rhaid i ni roddi mwy o sylw i ddygiad y plant i fyny yn y dyfodol. Dechreuwyd cyfarfod 2 o'r gloch gan y Parch. W. J. Phillips, Nottais, yn Saesneg. Cadeirydd y prydnawn oedd L. Cobden Thomas, Ysw., Castellnedd, mab i'r parchus a'r ffyddlon Undodwr, Mr. Thomas Thomas, *ironmonger*, Merthyr Tydfil. Llanwodd ei swydd yn arddderchog, ac yr oedd ei ymadrodd yn llyfn a'i eiriau yn synwyrgall. Hwn oedd y tro cyntaf iddo yntau gadeirio yn gyhoeddus. Gobeithio y cawn ei weled lawer gwaith etto, ac y bydd hir oes a dyrchafiad dysglaer iddo yn y dyfodol. Wedi iddo orphen ei araeth bert a chryno, galwodd ar Mr. Evans i fyned yn mlaen â'r gwaith. Canwyd Hear us, our Father; O Christian, awake; Clywch yr adsain; I'r ymdrech; Wake, maidens fair; Onward, Christian Soldiers; Awake, for the trumpet is sounding; a Normandy, yn hynod soniarus. Terfynwyd y cyfarfod drwy weddi. Cynnygiwyd, eiliwyd, a phasiwyd yn unfrydol fod y gymmanfa, y flwyddyn nesaf, i fod yn undebol rhwng Undodiaid Cymru, ac fod Mr. James, o Landyssul, i gario y genadwri oddiyma i Gymmanfa Sir Aberteifi. Ar ol y cyfarfod hwn, aethom tua'r Festri yr ail waith i gael gwledd o dê a bara brith a bara *brown* a 'menyn, ac yr oedd yno ddigon a thros ben o ddarpariaeth hyfryd er diwallu ein hangenrheidiau. Yr oedd y trefniadau yn rhagorol ar bob peth, a gwnaeth y *ladies* eu gwaith er clod a chanmoliaeth iddynt eu hunain.

Ar ol cael ein digoni o'r danteithion blasus hyn, a throi pobpeth heibio, awd tua'r trydydd cyfarfod, yr hwn a ddechreuwyd am chwarter i chwech o'r gloch, gan y Parch. N. R. Williams, Merthyr, a llywyddwyd gan Mr. Rowlands, Castell Nedd. Ar ol anerchiad byr, galwodd ar yr arweinydd at ei waith. Canwyd Edom, St. Ambrose, Undeb, Dolydd Eang, Tanymarian, Bryniau Canaan, Pembroke, Huddersfield, St. Hilary, Trallwm, Sawley, a'r Anthem. Cyfeiliwyd yn nghyfarfod y plant gan Mr. Morgan Morgans, Aberdar; ac yn y ddau gyfarfod ereill, gan Mr. Evan D. Harries, Cefn Coed. Anerch odd amryw y cyfarfodydd yn ystod y dydd, sef y Parch. W. J. Phillips, Dr. Griffiths, Pontypridd; Mr. D. Evans, Dowlais, a Mr. Matthews, Castellnedd. Nid wyf yn bwriadu canmol dim ar y canu, ond dy-

wedaf air neu ddau a ddywedodd Mr. Matthews am dano, sef na chlywodd well canu cynnulleidfaol erioed yn ei fywyd. Rhoddodd ganmoliaeth uchel i'r Sopranos—fod eu seiniau yn bur, a'u hamser yn gywir. Y Bass, meddai ef, oedd dipyn yn llac yn eu cychwyniad. Yr oeddwn o'r un farn ag ef. Mr. Matthews oedd arweinydd adran Orllewinol Morganwg o'r cor mawr pan fu Caradog yn Llundain. Er cystal yr aeth pobpeth yn mlaen drwy y dydd, yr oedd yma rywbeth yn tynu yn ol. Ni chlywais lais y Parch. R. J. Jones, o Aberdar, yn rhoddi yr emynau allan: gobeithio y bydd yn abl y Gymmanfa nesaf. Wel, dyma y chweched Gymmanfa wedi ei rhifo yn y gorphenol, a phawb wedi dyfod adre', ac yn ymddangos fel pe wedi eu llwyr foddloni. Fy ngofyniad yw, A ydyw y Gymmanfa yn talu ei ffordd? Barna di, ddarllenydd. Terfynwyd y cyfarfod am hanner awr wedi saith, drwy weddi, gan y Parch. Jenkin Thomas, Highland Place, Aberdar. Cychwynodd y gerbydres o Orsaf Castellnedd am wyth, ac yr oeddem yn Merthyr am ugain munyd wedi naw.

CARWR CYMMANFA.

CYMMANFA GERDDOROL SIR ABERTEIFI.

DYDD hir-ddysgwyliedig ydoedd y Llun, y 12fed o Fehefin, oblegyd dydd mawr cantorion Undodaidd Sir Aberteifi ydoedd. Yn y boreu yr oedd yr ardal yn fyw, sain yr udgorn yn glywadwy, a'r cerbydau yn tyru o bob cwr i'r Capel Coffadwriaethol. Yr oedd y corau canlynol yn cymmeryd rhan: Llwynrhydowen, Pantydefaid, Capel-y-fadfa, Cwrtnewydd, Sychbant, Capelygroes, Rhydygwin, Ciliau Aeron, Cribin, Llanbedr, Alltyplacca, Caeronen, a Llandyssul. Dechreuwyd drwy ddarllen a gweddio gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca, ac yna darfu i Lywydd y boreu, sef Mr. W. James, B.A., Llandyssul, draddodi araeth hyawdl ar ganiadaeth yn ei chyssylltiad â chrefydd. Dywedai y byddai yn dda pe sefydlid cadair gerddorol yn un o'r colegau duwinyddol, a nododd fod Llanbedr yn symmud yn y cyfeiriad hwn drwy fod Mr. L. Roberts yn rhoddi gwersi mewn cerddoriaeth i'r myfyrwyr fyddant ryw ddydd yn offeiriaid. Pe bai Coleg Caerfyrddin wedi cadw athraw cerddorol, yna byddai Mr. Thomas, Pantydefaid (archesgob yr eglwysi Undodaidd yn Nghymru) yn gerddor, ac yntau (sef Mr. James), yn ei ddylyn o hirbell. Yna galwodd ar Mr. D. Eiddil Jones, Cefncoed-y cymmer, yr arweinydd, i ymaflyd yn ei waith. Canodd y cor y tonau canlynol:—Edom, Pembroke (o'r *Bristol Tune Book*), Arfon, Tanymarian, Bryniau Canaan, Glanteifi, Crugybar, Lowell, Aberystwyth, a Thrallwm. Canodd Mr. George Thomas, Cwrtnewydd, yr hwn sydd yn Faritone gwych iawn, y "Ddinas Sanctaidd" yn hyfryd, felly hefyd Miss Sarah Jones, Alltyplacca, yr hon a roddodd "Lythyr fy Mam," ac i ddiweddu, canodd y Parch. W. J. Davies, gweinidog y lle, "The Star of Bethlehem," nes y darfu i'w Hybarch Dad yn y ffydd ysgrifenu fel hyn am y dadganiad —"The crown of all." Nid ein gwaith ni yw dweyd pa fath ganwr yw

Mr. Davies, ond gwyddom fod cariad tad yn fawr at ei fab. Terfyn odd gweinidog y lle drwy weddi. Traddododd Mr. David Davies, arweinydd y gân yn Gellionen, Cwmtawe, araeth wresog a phwrpasol ar y Gymmanfa. Ar ol digoni y dyn oddifewn, ail ddechreuwyd yn y prydnawn, drwy ddarllen Salm gan weinidog y lle, Mr. Williams, myfyriwr, Coleg Caerfyrddin, yn gweddio. Traddododd y Parch. J. Davies, llywydd y prydnawn, araeth fer, ac yna dadganodd Miss Jane Price, Llanbedr, "Flee as a bird" yn hynod swynol. Medda Miss Price lais Contralto da dros ben, a phan yr heneiddia, gall ei llais dd'od yn gyfoethog iawn. Yr un modd y canodd Mr. Thomas, Cwrtnewydd, "Merch y Cadben," yn glir a soniarus. Cawsom gân newydd gan Mr. Enoch Jenkins, myfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin, sef "Eternal Rest," yn gywir a swynol iawn. Yna dylynwyd hyn gan y triawd—"Duw bydd drugarog," gan Mr. Thomas, Cwrtnewydd, a'i ddwy gyfeilles. Canodd cor y plant yr anthem—"Gadewch i blant bychain" yn weddol dda. Rhagor o sylw i'r plant, gyfeillion. Yna canodd Miss Jenkins, Porth Hotel, Llandyssul, "The Holy City" yn dda odiaeth. Adroddodd Mr. Jenkins, Blaenwaun, englyn i ganiadaeth gyssegredig. Siaradodd Mr. Hughes, Rhydygwin, yn hynod gall a phwrpasol ar ganiadaeth y cyssegr, a chanodd y cor St. Ambrose, Undeb, Pembroke (o Lyfr Tonau Gwyllt), Dolydd Eang, Tanymarian, Aberystwyth (ar gais neillduol), Huddersfield, St. Hilary, Ambrose (J. A. Lloyd), a'r anthem, "Gwyn ei fyd y gwr," gan Rhedynog Pryce. Am yr arweinydd, yr oedd yn ddyn iawn yn ei le iawn, ei holl galon a'i enaid yn y gwaith. Yr oedd yn alluog i danio y cantorion, nes yr oeddynt yn canu yn fendigedig. Am y tonau ganwyd—Bryniau Canaan, Pembroke (Ieuan Gwyllt), Dolydd Eang, a Thanymarian, codasant yr hwyl i'r man uchelaf. Am yr anthem, dywedodd Mr. Jones fod y dadganiad yn rhagori ar eiddo Sir Forganwg; ond credwn y gallesid cael gwell dadganiad hyd y nod na'r un da hwn. Y mae Mr. Jones yn talu mwy o sylw i'r tonau cynnulleidfaol na'r anthemau, a hyny ar dir defnyddioldeb, ac ar y tir hwn y mae yn iawn. Am y Gymmanfa, dyma'r oreu a gawsom erioed gan yr Undodiaid yn y sir. Ar gynnydd y mae y canu o hyd. Yr oedd y cor yn feddiannol ar leisiau ardderchog, y *balance of parts* yn hynod dda, y tonau wedi eu meistroli, a'r sylw trylwyraf yn cael ei dalu i'r arweinydd. Yr oedd y capel mwyaf sydd gan yr Undodiaid yn orlawn, a channoedd oddiamgylch yr adeilad. Yr oedd y Parchedigion T. Thomas, Pantydefaid; W. J. Davies, Llwynrhydowen; J. Davies, Alltyplacca; R. C. Jones, Llanbedr; D. Evans, Cribin; T. B. Evans, M.A., Heywood; W. James, B.A., Llandyssul, a myfyrwyr Undodaidd Coleg Caerfyrddin, yn bresennol yn ystod y dydd. Cymmanfa fendigedig yn mhob ystyr, a gobeithiwn y try y Gymmanfa dair-flwyddol allan yn llwyddiant perffaith, yr hon a gynnelir yn Abertawe y flwyddyn nesaf. Dymunwn, wrth ddiweddu, gydnabod llafur gwerthfawr Miss Evans, Taliesin House, Llanbedr; Miss Davies, Temperance Hotel, Llanbedr; a Mrs. James, Brynhyfryd, Llandyssul, fel cyfeilesau ar yr organ a'r berdoneg.

NODYNAU GWASGAROG.

MR. GWENOGFRYN EVANS, M.A.

Yr ydym yn mawr lawenhau wrth ganfod y farn unfryd o gymmeradwyaeth â'r hon y mae y Cymry o bob gradd a chredo wedi derbyn gweithred odidog Mr. Gladstone yn cydnabod gwasanaeth anhunanol yr ysgolor gwych y mae ei enw uwchben yr ysgrif hon, â blwydd-dâl o £200. Os teilyngodd rhywun erioed gydnabyddiaeth ar law Llywodraeth Prydain Fawr am ei ymroddiad i ddyrchafu llenyddiaeth ei wlad, Gwenogfryn yn fwy na neb, oblegyd y mae wedi "treulio ac ymdreulio," a hyny yn ngwyneb rhwystrau a fyddent yn ddigon i ddigaloni rhai o wroldeb cyffredin, ac wedi llwyddo i wneyd gwaith na welir, o bossibl, mo'i werth hyd nes y bo'r gweithiwr wedi cilio y tu hwnt i'r llen. Ganwyd Gwenogfryn ger Llanybydder ar yr 20fed o Fawrth, 1852, ac y mae yn awr yn 41ain oed—yn mlagur ei oes. Prentisiwyd ef, pan yn 14eg oed, yn Llanbedr gyda'i ewythr, y diweddar Mr. D. Rees—boneddwr y mae ei enw mewn parchus goffadwriaeth gan holl drigolion y dref, ac yn neillduol anwyl gan ei gyd-Gristionogion yn Eglwys Brondeifi—a chyda'i ewythr yr arosodd am bedair blynedd. Yn 1872, ar ol bod yn yr ysgolion yn Nghaerfyrddin a Phontshân, aeth i'r Coleg Henadurol yn Nghaerfyrddin, er parotoi ar gyfer y weinidogaeth Undodaidd, ac wedi arosiad yno o dair blynedd, pennodwyd ef yn is-athraw yn Ngholeg Milton, yn agos i Rugby. Nid hir y bu yn tario yno cyn y dychwelodd drachefn i Gaerfyrddin, i gymmeryd gofal yr eglwys fechan Undodaidd yn Mharc-y-felfed. Canolig iawn oedd ei iechyd ar yr adeg hono, ac o'r braidd y gallasai ymddal dan bwys ei ddyledswyddau; ond ni fynai roddi fyny. Yn 1877, symmudodd i Preston, er ymgymmeryd â gofal yr Eglwys Undodaidd yn y dref hono; ac yn fuan ar ei bennodiad i'r lle olaf, ymbriododd â merch i'r diweddar Brif Athraw Stephenson Hunter, o fendigedig goffadwriaeth, ac mae Mrs. Evans wedi bod yn ymgeledd gymhwys iddo mewn gwirionedd. Yn 1880, ymsymmudodd i Rydychain, ac yno mae wedi ymgartrefu oddiar hyny hyd yn awr. Y tro cyntaf y daeth Gwenogfryn i sylw fel awdwr oedd pan yr ennillodd wobr o £25 yn L'erpwl, yn 1884, am y casgliad goreu o "Ddiarebion Cymreig." Rhoddodd hyn gyfle iddo archwilio hen lawysgrifau Cymreig, y rhai, wedi hyny, a olygodd efe, ac a gyhoeddodd yn gyfrolau gwerthfawr. Y llyfr cyntaf a ddaeth allan o'r wasg dan ei olygiaeth oedd cyfrol gyntaf "Llyfr Coch o Hergest," yn nechreu 1877, ac am ei lafur mewn cyssylltiad â hwn, graddiwyd ef yn M.A. gan y Brif Athrofa yn Rhydychain. Cyhoeddodd yr ail gyfrol yn 1890, ac mae hon, yn nghyd â'r un flaenorol, yn arddangos ymchwiliad a diwydrwydd anarferol. Dygodd allan o'r wasg hefyd *fac-simile* o "Lyfr Du Caerfyrddin" yn 1888. Ei gyfrol olaf yw "Llyfr Llandaf," yr hon a gyhoeddwyd ganddo y flwyddyn hon. Anhawdd i'r darllenydd ddirnad y filfed ran o'r anhawsderau y bu raid i'n cyfaill filwrio danynt yn herwydd ei fynych wendid. Meddai Mr. Owen M. Ed-

wards ar y pen hwn :—"Ac yma dylaswn ddweyd fod y rhan fwyaf o'r holl waith a nodais—copio, cyssodi, parotoi i'r wasg, cywiro profleni, gwneyd *indices*, cymharu llaw-ysgrifau, ysgrifenu, gohebu—wedi ei wneyd mewn cyflwr o iechyd na fuasai neb arall braidd yn meddwl ond am ei wely : yr oedd ardymheredd ei gorff, pan gopiai'r Mabinogion, yn ddigon uchel y buasai'n angeu i lawer un. Bu agos i'r *influenza* ei dori yntau i lawr ddwywaith neu dair ; ond er gwaethaf hyn, ac afiechyd nychlyd hen, dal y mae i weithio'n ddewr a chalonog. Mawr yw grym meddwl penderfynol ; a gall fod llafur diflino ac an mhrisiadwy Mr. Evans dros lenyddiaeth Cymru yn rhyw help i'w gadw yntau rhag suddo." Da y cofia ysgrifenydd y nodyn byr hwn am y nychdod poenus y mae yr ysgolor gwych yn ysglyfaeth iddo, pan fu yn fwynhad iddo lawer tro yn nyddiau diofal yr ysgolia, i geisio canu rhyw gân nwyfus, megys "Mentra Gwen," neu "Nyddu yr oedd Myfanwy pan ddaeth John i'r tŷ," er mwyn cadw ei gyfaill hoff rhag ymollwng dan ei boenau dirfawr. Hwyrfrydig y bu ei gydwladwyr cyn cydnabod ei werth, a rhoddi help iddo er cario ei waith yn mlaen. Dymunwn iddo oes hir i fwynhau y blwydd-dâl a wir deilynga.

CAPEL NEWYDD TREBANOS.

Efallai nad yw yn wybyddus i'n darllenwyr fod y brodyr ydynt wedi arfer ymgynnull yn yr ysgoldy ar Graig Trebanos, perthynol i Gellionen, wedi penderfynu adeiladu capel newydd, ac fod hwnw eisoes wedi ei ddechreu. Cyst y capel hwn dros £1,000, a chan nad yw y nifer amlaf o'r aelodau ond gweithwyr cyffredin, byddant dan orfod i appelio at yr haelionus a'r rhwydd-galon yn mysg eu henwad eu hunain, ac hefyd y tu allan i hwnw. Nid heb angen y mae'r cyfeillion wedi ymgymmeryd â'r anturiaeth hon, oblegyd y mae'r ysgoldy wedi myned yn rhy fychan er's blynyddau, a'u haddoliad bob nos Sul wedi dyfod yn fwy o flinder nag o bleser iddynt, o herwydd prinder lle. Gobeithio y cânt gefnogaeth galonog o bell ac agos, ac y llwyddant i gasglu y swm gofynol cyn yr adeg y gorphenir y capel newydd. Yn eu cyfwng presenol, maent dan yr anfantais o fod heb weinidog ; ond hyderir yn fawr na fydd hyny ddim yn rhwystr iddynt gyrhaedd eu hamcan. Ysgrifenydd y gynnulleidfa yw Mr. Henry Morgan, Trebanos, Pontardawe, a derbynir pob rhodd ganddo ef neu gan Mr. D. Davies, Gellionen Ganol, yn dra diolchgar.

CYMMAINT O DRINDOD AG SYDD YN Y BEIBL.

I ysgrifenydd yn y *Liberal Christian* yr ydym yn ddyledus am y crynodeb canlynol o'r oll a ddywed y Beibl am y Drindod. Cymerir ef allan o "Hitchcock's Complete Analysis of the Beibl."

Cysgod o'r Drindod Gen. i. 26. Duw hefyd a ddywedodd, Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain, &c. Gweler Gen. iii. 22, xi. 7.

Yn cael ei awgrymu. Eph. ii. 18. Oblegid trwyddo ef y mae i ni ein dau ddyfodfa mewn un yspryd at y Tad.

22.—Yn yr hwn y'ch cydadeiladwyd chwithau yn breswylfod i Dduw trwy yr Yspryd.

iv. 4.—Un corff sydd, ac un yspryd, megys ag y'ch galwyd yn un gobaith eich galwedigaeth. 5.—Un Arglwydd, un ffydd, un bedydd. 6.—Un Duw a Thad oll, yr hwn sydd goruwch oll, a thrwy oll, ac ynoch oll.

Matt. xxviii. 19.—Ewch gan hyny a dysgwch yr holl genedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glan.

2 Cor. xiii. 14.—Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Yspryd Glan, a fyddo gyda chwi oll.

1 Petr 2.—Etholedigion yn ol rhagwybodaeth Duw Dad, trwy sancteiddiad yr Yspryd, i ufudd-dod a thaenelliad gwaed Iesu Grist: Gras fyddo i chwi a heddwch a amlhaer.

1 Ioan v. 7.—Oblegyd y mae tri yn tystiolaethu yn y [nef—y Tad, y Gair, a'r Yspryd Glan, a'r tri hyn, un ydynt. Ac y mae tri yn tystiolaethu ar y ddaear], yr yspryd, y dwfr, a'r gwaed: a'r tri hyn, yn un y maent yn cytuno.

Dyna grynodeb o'r profion, ac yn awr gofynwn, pa le mae'r prawf o'r Drindod. Yn y dyfyniad olaf, mae'r geiriau rhwng cromfachau, fel y gwyddis yn ffugiol, ac nid ydynt i'w gweled yn y cyfieithad Seisnig diwygiedig. Hawdd y gallai boneddwr Seisnig fentro cynyg £100 am un adnod yn profi'r Drindod, neu rywbeth yn gyfystyr. Nid oes neb hyd yma wedi hawlio'r £100. Nid oes dim Triudod yn y Beibl. Cheir dim o'r gair yno na dim yn debyg i'r athrawiaeth.

C. F.

RAILWAY NEWYDD.

Wyddoch chi, nid oes ddiwedd ar ryfeddodau, Mae y *railway* wedi ei gorphen o Jaffa (Joppa) i Jerusalem. Onid yw i gyd yn od? Gyda'r tren trwy hen wlad gyssegredig y Beibl! A rhyfeddach fyth, fe ddywedir fod gorsaf (*station*) y ddinas sanctaidd yn nyffryn *Hinnom*, neu yn iaith y Beibl yn *Gehenna*, neu fel y mae y Beibl Cymraeg—yn Uffern. Ydy, mae yn od, gyda'r tren i—*Uffern!* Bydd yn rhaid i'r bobl newid eu syniadau yn sicr.

T. C. U.

Manion ac Hanesion.

MOUNTAIN ASH.—Deallwn fod y Parch. Fisher Jones, Cwmbach, ar gychwyn cyfres o bregethau yn y lle hwn, er egluro egwyddorion Undodiaeth. Hyderwn y dylynir y mudiad â llwyddiant mawr.

UNDEB YSGOLION MERTHYR AC ABERDAR—Cyfarfu y pwyllgor perthynol i'r undeb uchod yn Nghapel Twynyrodin, Merthyr, pryd y darllenwyd cyfrifon y Gymmanfa ddiweddaf yn Nghastellnedd. Dymunol yw meddwl fod yr holl ddyledion wedi eu talu, ac y bydd swm gweddol yn llaw y trysorydd pan ddaw casgliadau y gwahanol

eglwysi i law. Ar ol gorphen â'r cyfrifon, etholwyd y swyddogion am y flwyddyn nesaf, a safant fel hyn—Llywydd, Mr. Samuel George, Dowlais; Is-Lywydd, Mr. David Evans, Hen Dy Cwrdd, Aberdar; Trysorydd, Mr. D. O. Evans, Merthyr; Ysgrifenydd, J. Hathren Davies, Cefncoed. Teimlai aelodau y pwyllgor yn llawen ar lwyddiant annghymharol ein cymmanfaoedd, a dylid llongyfarch ein harweinydd poblogaidd ar ei waith ardderchog mewn cyssylltiad â hwy.

Mr. D. O. Evans.—Bydd yn flin gan ein darllenwyr ddeall fod trysorydd gweithgar ein Cymmanfa wedi cyfarfod â damwain dost drwy syrthio yn erbyn llif pan yn dylyn ei alwedigaeth. Aeth y llif trwy gnawd ei fraich chwith hyd at yr asgwrn, ond yn ffodus, achubwyd yr asgwrn, a barn y meddygon yw yr arbedir ei fraich. Pan yr ydym yn ysgrifenu, mae Mr. Evans yn Yspytty Gyffredinol Merthyr, ac hyderwn yn fawr y ca wellhad buan.

Y Parch. Ifor Davies.—Deallwn fod ein cyfaill hawddgar ar wellhad, wedi ei gaethiwo i'w glaf-ystafell am wythnosau gan y gymmalwst. Gobeithiwn y pery i wella.

Cwmbach.—Cynnaliodd Undodiaid y lle uchod eu gwyl dê flynyddol dydd Llun, Mai 29, pryd y daeth rhai cannoedd i fwynhau y te a'r bara brith. Wrth y byrddau gwelsom y Misses Morgan, Cwmbach; Mrs. Wathen, y Misses James, Cwmneol Farm, Cwmaman; y Misses Thomas a Mrs. Davies, Plas y Felin, Cwmpennar. Yn yr hwyr cawsom gyngherdd ardderchog, pryd y cawsom wasanaeth rhai o brif gantorion y dyffryn. Cadeiriwyd gan Joseph Thomas, Ysw., Pontypridd. Canodd Mr. Henry Thomas "Llythyr fy Mam" a "Hen Ffon fy Nain," Miss Davies "Yr Ehedydd" a "I may or I may not;" Llew Aman "Mount of Home" ac "A soldier and a man;" Llinos Rhondda, "She wandered down the mountain side" a "Gelert;" Miss George, Aberdar, "By the fountain;" Tom Bowen, "Pictiwr fy mam" a "Y Bardd yn ei awen" (Owain Alaw); y Parch. Fisher Jones, "Cymru Fydd;" deuawd, "Hywel a Blodwen," Llinos Rhondda a Mr. Jones; deuawd, "The Pilot Brave," Mri. Henry Thomas ac Isaac James, Cwmaman; triawd, "Duw, bydd drugarog," Miss Davies a Mri. Jones a Bowen; adroddiad, "John, y gwas, mamgu a finau," Mr. Timothy Palmer. Y cyfeilwyr oeddynt y Misses Morgan a George. Terfynwyd drwy i Mr. John Jones, Cwmaman, ganu "Hen Wlad fy Nhadau." Melus, moes etto.—W.T.

Marwgofion.

Mai 23, ar ol cystudd byr, yn 69 mlwydd oed, Rees Jones, saer maen, Drefach, Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Capelybryn, a gweinyddwyd ar yr achlysur i glywedigaeth tyrfa fawr gan y gweinidog. Dyn tawel, heddychol, oedd yr ymadawedig, a chofir ei ddiniweidrwydd yn barchus am amser hir.

Mai 29, yn 82 oed, Rachel, gweddw y diweddar David Josuah, Penrhiw, Pantgwyn, Llandyssul. O herwydd henaint ac afiechyd, yr oedd yr ymadawedig yn ddiweddar wedi symmud i fyw at ei mab a'i merch-yn-nghyfraith, John ac Anne Davies, Gwarcefel Arms, Pantdefaid. Claddwyd hi y dydd Mercher canlynol yn Pantdefaid. Pregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur.

Mehefin 3, ar ol cystudd maith ond esmwyth, yn 21 mlwydd oed, Margaret, anwyl ferch Mr. James Jones, Caerau, Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Pantydefaid. Pregethwyd yn y ty gan J.D., gwasanaethwyd yn y capel gan y Parch. T. T., a gorphenwyd ar lan y bedd gan J. D. Bydded i'r tad, y brodyr, a'r chwiorydd fodd i alaru yn gymmedrol ar ol un mor gu.

Mehefin 6, ar ol blynyddoedd o gystudd, yn 68 mlwydd oed, John Jones, Nantygwragedd, Plwyf Llanbedr. Claddwyd yn mynwent Llanwnen, a gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. J. D., Alltyplaca, ac yn yr eglwys a'r fynwent gan y ficer. Modd a gaffo'r weddw a'r plant i ymostwng i'r drefn ddoeth.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.